**Mid 02-02(min)**

**Cyfarfod Pwyllgor Rhanbarth y Canolbarth**

**Dyddiad:** Dydd Gwener 8 Mawrth 2002

**Amser:** 10.30am

**Lleoliad:** Neuadd Gymunedol Tref-y-Clawdd, Tref-y-Clawdd

**Yn bresennol:**

| | | |
|---|---|---|
| **Delyth Evans, Cadeirydd** | Llafur | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| **Mick Bates** | Democratiaid Rhyddfrydol | Sir Drefaldwyn |
| **Cynog Dafis** | Plaid Cymru | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| **Glyn Davies** | Ceidwadwyr | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| **Kirsty Williams** | Democratiaid Rhyddfrydol | Brycheiniog a Sir Faesyfed |

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor:**

| | |
|---|---|
| **Stephen Thomas** | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |
| **Martha da Gama Howells** | Cymorth Pwyllgorau |
| **Phil Mulraney** | Cymorth Pwyllgorau |

**Ymddiheuriadau:**

| | | |
|---|---|---|
| **Elin Jones** | Plaid Cymru | Ceredigion |
| **Nick Bourne** | Ceidwadwyr | Canolbarth a Gorllewin Cymru |

**Eilyddion:** Dim un

**Datganiadau o fuddiant:** Dim

**Rhagymadrodd**

Diolchodd y Cadeirydd i Trevor Johnson a Kevin Kell o Bwyllgor Rheoli Neuadd Gymunedol Tref-y-Clawdd am eu cymorth gyda'r trefniadau ar gyfer y cyfarfod.

Estynnodd y Cyng. Bob Reeves, Dirprwy Faer Tref-y-Clawdd, groeso i'r Pwyllgor i Dref-y-Clawdd.

Rhoddodd Joyce Price, Ysgrifennydd Cyfeillion Ysbyty Tref-y-Clawdd, gyflwyniad byr yn amlinellu'r pryderon lleol yngln â'r gostyngiad arfaethedig mewn gwasanaethau mamolaeth a fyddai'n deillio o Gynllun Gwasanaethau Bydwreigiaeth Powys. Addawodd y Cadeirydd y byddai'n pasio'r pryderon hyn ymlaen i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ac yn cyfleu ei hymateb yn ôl.

**Atborth o gyfarfodydd blaenorol**

- Yn dilyn y cyfarfod ar 1 Chwefror ym Machynlleth, roedd y Cadeirydd wedi ysgrifennu at Fwrdd Croeso Cymru yngln â phwysigrwydd twristiaeth ddiwylliannol i economi'r Canolbarth, gan fynegi pryder y Pwyllgor yngln â dyfodol Twristiaeth y Canolbarth. Roedd ymateb y Bwrdd Croeso wedi ei gylchredeg i'r Aelodau ac roedd copi wedi ei anfon at Dwristiaeth y Canolbarth.

- Roedd y Cadeirydd hefyd wedi ysgrifennu at Gadeirydd Cyngor Celfyddydau Cymru yngln ag addasrwydd Y Tabernacl i gael cyllid cyhoeddus craidd.

**<u>Eitem 1 ar yr Agenda: Trafodaeth ar y ddogfen ymgynghori 'Cyflawni dros Gymru'</u>**

Rhoddodd Kay Powell, y Prif Swyddog Cynllunio dros Gymru, gyflwyniad byr yn amlinellu amcanion allweddol yr ymgynghori a'i brif themâu. Prif nod yr ymgynghori oedd cydnabod y

nodweddion hynny o'r gyfundrefn gynllunio sy'n gweithio'n dda, ac adeiladu ar yr elfennau sylfaenol hyn er mwyn creu system lle gwneir penderfyniadau da sydd yn agored, yn gyson, yn deg ac yn amserol. Dylai'r system hefyd fod yn gydnaws â'r amcanion a nodwyd yng Nghynllun Llywodraeth Cynlluniad Cymru ar gyfer Cymru.

**Cyngor Sir Ceredigion**

**Papur MID 02-02(p1)**

Cynrychiolwyr:

Y Cynghorydd Alun Lloyd Jones

Russell Hughes-Pickering, Prif Swyddog Cynllunio

Gwnaethpwyd y pwyntiau allweddol canlynol yn y cyflwyniad:

- Croesawai Cyngor Sir Ceredigion y cyfeiriadau cadarnhaol yn y ddogfen at allu'r gyfundrefn i wireddu datblygu cynaliadwy ac adfywio economaidd.
- Roedd yna bryder y gallai'r pwyslais ar gyflymu'r gyfundrefn gynllunio olygu cwtogi ar y cyfleoedd i roi llais i'r gymuned. Roedd y Cyngor o'r farn ei bod yn holl-bwysig sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng buddiannau'r gymuned a buddiannau datblygwyr.
- Mae'r broses ymgynghori o'i hanfod yn codi materion annisgwyl y mae angen i'r awdurdod a'r ymgeisydd roi sylw iddynt. Roedd cyngor anffurfiol, sy'n rhoi datganiad clir o du'r awdurdod am ba wybodaeth a ddisgwylir oddi wrth ymgeisydd er mwyn penderfynu ar gais, yn gyfrwng mwy priodol na chontract i ganiatáu ar gyfer ymdrin â'r materion hyn.
- Gallai gwahanol fathau o ymgynghori fod yn briodol mewn cymunedau gwledig a threfol. Efallai na fyddai'n bosibl mynegi pryderon lleol yn llawn ar ffurflenni cais 'safonol' a byddid yn croesawu rhagor o ganllawiau sydd wedi'u seilio ar ardaloedd.
- Roedd yna bryder nad oedd y goblygiadau i Awdurdod Lleol o ran adnoddau wedi cael eu cydnabod yn llawn.

**Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig**

**Papur MID 02-02(p2)**

Cyflwynydd: Helen Mrowiec, Dirprwy Gyfarwyddwr

Gwnaethpwyd y pwyntiau allweddol canlynol yn y cyflwyniad:

- Roedd Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig yn croesawu'r ymgynghori ac yn gyffredinol

roedd yn cefnogi pwyslais y cynigion. Fodd bynnag, y bwriad oedd ymgynghori'n fewnol ar nifer o bwyntiau cyn cyflwyno ymateb ffurfiol.

- Roedd y cwestiwn o sut i ddelio â Phrosiectau Seilwaith Mawr yn un pwysig ac ni ellid ei adael heb ei ddatrys. Barn amodol Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig oedd y dylai penderfyniadau gael eu gwneud gan y Cynulliad er mwyn osgoi datblygu cyfundrefn gynllunio ddeuol.
- Roedd Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig yn gryf ei chefnogaeth i'r syniad y dylai fod hawl gan drydydd partïon i apelio o dan rai amgylchiadau, fel a gynigiwyd yn ddiweddar mewn adroddiad a gomisiynwyd gan y Council for the Protection of Rural England.
- Roeddid yn amau a oedd angen Parthau Cynllunio Busnes yng nghyd-destun cyfundrefn gynllunio gyflymach a mwy effeithiol.
- Cefnogid Ymchwiliadau Cyhoeddus Lleol fel fforwm tryloyw lle gellid trafod materion mewn manylder ond hoffai Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig weld cynigion a fyddai'n creu llai o wrthdaro fel rhan o'r drefn.
- Mynegwyd pryder hefyd gan Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig y gallai cost dogfennau cynllunio fod yn rhy uchel, ac y dylai awdurdodau geisio ffyrdd o sicrhau eu bod ar gael i'r cyhoedd y tu allan i oriau swyddfa.

Nodwyd y pwyntiau canlynol yn y sesiwn holi ac ateb a ddilynodd:

- Roedd gallu awdurdodau i orfodi caniatâd cynllunio yn ddigonol ac i weithredu lle torrir caniatâd yn dibynnu ar lefel yr adnoddau a neilltuir i'r diben hwn. Mae'n rhaid i awdurdodau bennu blaenoriaethau ac roedd yn anochel fod maint datblygiad yn ffactor yn y penderfyniad hwnnw.
- Byddai statws statudol i gynllun Gofodol Cymru yn help i awdurdodau gan y byddai'n darparu cyd-destun i gynlluniau a phenderfyniadau lleol, ac yn rhoi arweiniad llawer cryfach i gynllunio is-ranbarthol.
- Mewn ymateb i gwestiwn yngln â rôl gymharol trydydd partïon a Chynghorwyr yn y gyfundrefn gynllunio, pwysleisiodd Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig fod hawliau trydydd partïon yn elfen bwysig er mwyn galluogi pryderon ehangach i gael eu hystyried fel rhan o'r broses.
- Mewn ymateb i gwestiwn yngln â sefyllfa'r sawl yr ymgynghorir â nhw yn statudol, roedd Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig yn credu ei bod yn bwysig nad amharir ar ansawdd yr ymatebion drwy bennu dyddiadau cau llym.
- Dylid cydnabod cyfraniad y sector gwirfoddol; credai Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig y dylai fod gan y sector rôl i'w chwarae yn sefydlu Gwasanaeth Cynllunio Ymgynghorol Lleol.

Diolchodd y Cadeirydd i'r cyflwynwyr am eu cyfraniadau a dywedodd y byddai'r safbwyntiau yn cael eu bwydo'n ôl i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth fel rhan o'r

broses ymgynghori.

**Eitem 2: Trafodaeth ar gyfleusterau chwaraeon ym Mhowys**

**Cyngor Sir Powys**

Cynrychiolydd:

Paul Griffiths, Cyd Gyfarwyddwr Dros Dro dros Gymunedau, Hamdden ac Adloniant

Gwnaethpwyd y pwyntiau canlynol yn y cyflwyniad:

- Roedd yn amlwg fod gan chwaraeon ran bwysig a sylweddol i'w chwarae ym Mhowys. Mae darpariaeth chwaraeon yn cael ei chynnig gan amryw o sefydliadau, yn cynnwys y Cyngor Sir a'r ysgolion.
- Roedd y cyfleusterau ym Mhowys yn cynnwys canolfannau hamdden a chwaraeon mewn trefi sydd â phoblogaeth o fwy na 2,000. Mae'r sir hefyd yn gartref i ddau drac athletau synthetig.
- Mae'r Cyngor yn cynnal cynllun grantiau cyfalaf i'r sector anstatudol a gwirfoddol ac mae nifer o gyrff chwaraeon wedi elwa o'r cynllun hwn.
- Yn 1998-9, cynhaliodd y Cyngor ymarferiad ymgynghori eang am gyfleusterau chwaraeon. O'r rhai a ymatebodd i'r arolwg hwnnw roedd cyfradd o 89% yn cymeradwyo gwasanaeth y Cyngor.
- Roedd angen buddsoddi'n sylweddol ar y stoc adeiladau ym Mhowys. Roedd diffyg buddsoddi wedi golygu bod disgwyliadau cwsmeriaid a defnyddwyr yn is nag y dylent fod.
- Ymysg amcanion allweddol y Cyngor roedd gwella mynediad i gyfleusterau chwaraeon, yn enwedig ar gyfer pobl ifanc, ac annog ceisiadau am grantiau datblygu chwaraeon lleol.
- Ymysg yr enghreifftiau diweddar o gynlluniau yn y sir roedd cynllun hyfforddwyr achrededig Powys, prosiect clefyd y galon, y fenter chwaraeon a throseddu ar gyfer pobl ifanc a Gyl Bêl-droed y Merched.

**Fforwm Ieuenctid Powys**

Cynrychiolwyr:

Jenny Griffin

Mark Westlake

Gwnaethpwyd y pwyntiau canlynol yn y cyflwyniad.

- Mae'r ddarpariaeth chwaraeon i bobl ifanc yn y Trallwng wedi ei chyfyngu'n bennaf i'r rhai dan 12; roedd angen mwy o oruchwylwyr staff ar gyfer y grp oedran 12-16.
- Nid yw'r cyfleusterau chwaraeon a hamdden yn Llandrindod yn ddigonol; nid oes yno ond pwll bach a neuadd chwaraeon.
- Roedd y ddarpariaeth mewn parciau hefyd yn annigonol yn y Trallwng a Llandrindod. Roedd llawer o barciau yn cau'n gynnar ac roedd yr adnoddau ynddynt yn wael.
- Roedd y ddarpariaeth sgrialu yn annigonol yn y ddwy dref.
- Gellid gwella'r mynediad at gyfleusterau chwaraeon hefyd, ond canmolodd Mark Westlake y gwasanaeth bws newydd a oedd yn gweithredu yn Llandrindod.

Gwnaethpwyd y pwyntiau canlynol yn y sesiwn holi ac ateb a ddilynodd:

- Mewn ymateb i gwestiwn yngln â'r diffyg darpariaeth sgrialu ym Mhowys, dywedodd Paul Griffiths fod grantiau datblygu ar gael i'r diben hwn ond, yn gyffredinol, fod angen i'r mecanweithiau cefnogi sy'n gysylltiedig â darpariaeth sgrialu fod yn gryfach.
- Mewn ymateb i gwestiwn yngln â merched yn cymryd rhan mewn chwaraeon, cytunodd Paul Griffiths fod angen i gyfleusterau chwaraeon a'r staff sy'n eu cynnal fod yn groesawgar ac agored i bawb. Roedd Cyngor Sir Powys yn gweithio gyda'r Cyngor Chwaraeon ar y mater hwn.
- £6m oedd y cyfanswm refeniw sy'n cael ei wario ar chwaraeon a hamdden ym Mhowys. Cydnabyddai Mr Griffiths y gellid delio â'r broses gyllido yn gyflymach ar adegau a bod y drefn braidd yn feichus.
- Dywedodd Jenny Griffin y byddai'n gwbl bosibl i blant ofalu am barciau sgrialu eu hunain; roedd angen darpariaeth sbwriel ddigonol ym mhob parc sgrialu.
- Cytunai Paul Griffiths fod mynediad at gyfleusterau chwaraeon yn rhwystr mawr ym Mhowys ac mai dymuniad pobl ifanc yw gallu dewis pa bryd ac ymhle y mae cludiant ar gael.
- Cafwyd rhywfaint o drafod yngln â'r diffyg elfen i gydnabod poblogaeth wasgaredig yn y grantiau a ddyrannir o'r Gronfa Cyfleoedd Newydd. Dywedodd Mr Griffiths fod Cyngor Sir Powys yn rhannu'r pryderon hyn a'i fod hefyd yn pryderu yngln â chostau gweinyddol y cynllun.

**Cyngor Chwaraeon Cymru**

Cynrychiolwyr:

Huw Jones, Prif Weithredwr

Claire Davies, Swyddog Datblygu

Gwnaethpwyd y pwyntiau canlynol yn y cyflwyniad:

- Mae Cyngor Chwaraeon Cymru yn gweithredu ar egwyddorion partneriaeth, datganoli ac is-reolaeth.
- Ei ddwy flaenoriaeth bennaf yw cynyddu cyfranogiad mewn ardaloedd lle mae'r lefelau cyfranogi yn isel ar hyn o bryd, a chreu rhagor o gyfleoedd cyfranogi ar gyfer menywod a merched.

Gwnaethpwyd y pwyntiau canlynol yn y sesiwn holi ac ateb a ddilynodd:

- Cytunai Huw Jones ei bod yn fwy costus darparu cyfleusterau chwaraeon mewn ardaloedd gwledig. Dywedodd na fu a wnelo'r Cyngor Chwaraeon o gwbl â phenderfyniad y Gronfa Cyfleoedd Newydd i beidio ag ymgorffori elfen i gydnabod poblogaeth wasgaredig yn ei phroses dyrannu grantiau. Mae'r Cyngor Chwaraeon yn gweithio'n agos gyda'r Gronfa Cyfleoedd Newydd ar ddosbarthu grantiau ac ar sicrhau bod cynlluniau grant yn cyrraedd safon benodol.
- Mewn ymateb i gwestiwn am sut y gellid gwneud y broses o ymgeisio am grant yn haws, dywedodd Huw Jones fod hyn yn her i'r Cyngor. Mae swyddogion y Cyngor Chwaraeon yn aml yn rhoi cyngor i ddarpar ymgeiswyr yngln â'r prosesau a'u gobeithion hwy o lwyddo. Dim ond dwy dudalen o hyd yw'r ffurflen gais am arian o'r gist gymunedol, ond mae'r broses yn mynd yn fwy cymhleth wrth i faint y cais am grant gynyddu.
- Cafwyd rhywfaint o drafod yngln â'r symiau sy'n cael eu gwario ar chwaraeon fesul pen o'r boblogaeth ym Mhowys o'i chymharu â siroedd eraill. Dywedodd Huw Jones fod y swm a warir ym Mhowys gryn lawer yn llai nag mewn ardaloedd fel Ceredigion a Blaenau Gwent ond nad oedd pob sir yn dechrau o’r un lefel. Dros gyfnod o amser byddai lefel y grantiau a ddyfarnir yn gwastatáu.
- Mae gan y Cyngor Chwaraeon strategaeth glir tan 2005 a byddai'n awr yn canolbwyntio ei ymdrechion ar ei gwireddu.

**<u>Eitem 3: Sesiwn drafod agored</u>**

**Dorian Williams o Ysgol Uwchradd Tregaron, sydd hefyd yn Ysgrifennydd Cymdeithas Chwaraeon Ceredigion** – Siaradodd Mr Williams am gyflwr y cyfleusterau chwaraeon yng Ngheredigion sydd, yn ei farn ef, yn annigonol i ddiwallu anghenion y trigolion. Dywedodd Mr Griffiths mai Ceredigion sydd â'r ganran uchaf yng Nghymru o ran cyfranogi mewn gweithgareddau chwaraeon ac, yn 1991, roedd yn bedwerydd ar restr Cyngor Chwaraeon Cymru o'r siroedd sy'n ymgeisio am grantiau. Nid oedd gwariant o £40 y pen yn cael ei ystyried yn ddigonol mewn sir wledig lle, er enghraifft, mae'n rhaid iddo drefnu cludiant i Aberystwyth ar gyfer 100 o blant bob dydd Sadwrn. Dywedodd fod angen wyneb chwarae artiffisial yn ogystal â champfa.

**Y Cynghorydd Ken Harris, Cyngor Tref Tref-y-Clawdd** – Lleisiodd Mr Harris ei bryderon

yngln â'r system garthffosiaeth sy'n gwasanaethu Tref-y-Clawdd sydd, yn ei farn ef, ar ôl yr oes ac yn annigonol. Anogodd y Cynulliad i ddwyn pwysau ar Awdurdod Dr Hafren-Trent i wella'r sefyllfa. Cytunodd y Cadeirydd i godi'r mater gyda Hafren-Trent a'r Gweinidog dros yr Amgylchedd.

**Islwyn Watkins** – Siaradodd Mr Watkin am botensial safle hen ffatri ger Tref-y-Clawdd. Teimlai y gallai'r safle gynnig cartref i Amgueddfa Celfyddyd Fodern Genedlaethol, a phwysleisiodd y gallai twristiaeth ddiwylliannol ddod â manteision economaidd i'r ardal leol. Pwysleisiodd hefyd fod y safle yn anaddas i'w ddatblygu'n ddiwydiannol gan fod y seilwaith trafnidiaeth lleol yn annigonol ar gyfer traffig trwm.

**Kevin Kell, Cadeirydd y Grp Llwybrau Troed Lleol** – Lleisiodd Mr Kell ei bryderon yngln â'r ddarpariaeth ar gyfer defnyddwyr llwybrau troed a cherddwyr yn yr ardal. Mae cerdded yn weithgaredd hamdden ac mae felly yn haeddu cyllid oddi wrth sefydliadau chwaraeon. Nid oedd hawliau cerddwyr yn cael eu cynrychioli gan fod yr awdurdodau lleol yn drwm o dan ddylanwad tirfeddianwyr.

**Michael Jones, Cyngor Sir Powys** – Siaradodd Mr Jones am y problemau o gynnal cyfleusterau chwaraeon mewn ardal wledig. Roedd y costau cynnal a chadw a wynebir yn debyg i'r costau mewn ardaloedd trefol ond roedd y defnydd yn llawer is. Roedd mawr angen wyneb chwarae pob-tywydd yn Llanandras. Nid yw'r Cyngor Chwaraeon yn cyllido ysgolion bach er eu bod yn darparu cyfleusterau chwaraeon allweddol.

**Brian Morgan, Cyngor Cymuned Llanddewi yn Hwytyn** – Cyfeiriodd Mr Morgan at gyfoeth a thlodi cymharol rhannau o Brydain Fawr. Roedd wedi clywed adroddiadau fod enillion ar gyfartaledd yn Chelsea yn Llundain yn £36,000 y flwyddyn ac enillion ym Mlaenau Gwent yn £18,000 y flwyddyn. Dadleuodd fod tlodi yn Sir Faesyfed yn waeth nag ym Mlaenau Gwent.

**Mr Trevor Johnson, Cyngor Cymuned Tref-y-Clawdd** – Cwynodd Mr Johnson yngln â'r ffaith nad yw poblogaeth Dwyrain Sir Faesyfed yn gallu derbyn signalau teledu daearol o Gymru. Holodd a fyddai'r Cynulliad Cenedlaethol yn barod i wneud cyfraniad tuag at y gost o godi mast darlledu yn yr ardal. Dywedodd y Cadeirydd nad oedd darlledu yn fater sydd wedi ei ddatganoli ond y câi'r pwynt ei nodi ac y byddid yn ei godi gyda'r partïon perthnasol.

**Sam Taylor, myfyriwr o ysgol / coleg John Meadows** – Teimlai Mr Taylor y dylai cyfarfodydd y Pwyllgorau Rhanbarth gael eu cynnal un ai fin nos neu ar y Sadwrn er mwyn caniatáu i fyfyrwyr ac athrawon chwarae rhan lawn yn y broses ddemocrataidd.

## Eitem 4: Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Chwefror – MID-01-02(min)

Cytunwyd arnynt heb newidiadau.

Mae'r cyfarfod nesaf wedi'i drefnu ar gyfer 17 Mai yn Harlech.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Mawrth 2002**